# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **09:20 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mohammad Asghar (Oscar)**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Leanne Wood**<br>**Andrew RT Davies (Cadeirydd)** |
| Tystion: | **Y Fonesig Gillian Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru**<br>**Michael Hearty, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad**<br>**June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau**<br>**Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus** |
| Staff y Pwyllgor: | **Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Alun Davidson (Clerc)** |

## 1. Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro

1.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd dros dro i'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.22. Cafodd Andrew RT Davies ei enwebu gan Mohammad Asghar. Drwy hynny, penodwyd Andrew RT Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod hwn a chyfarfod nesaf y Pwyllgor, ar 6 Rhagfyr 2011.

## 2. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Estynnodd y Cadeirydd Dros Dro groeso i aelodau'r Pwyllgor ac i'r cyhoedd.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar; roedd Andrew RT Davies yn dirprwyo ar ei ran.

## 3. Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011 - Yr Heriau Ariannol Allweddol a Wynebir gan Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

3.1 Estynnodd y Pwyllgor groeso i'r Fonesig Gillian Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol; June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau; Michael Hearty, Cyfarwyddwr Cyffredinol Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad; a Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.2 Estynnodd y Pwyllgor groeso hefyd i Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Mark Jeffs, Swyddfa Archwilio Cymru.

3.3 Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Proffil o'r arbedion y bydd adrannau Llywodraeth Cymru yn eu gwneud dros y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
- Rhagor o fanylion am gyllid ychwanegol a oedd ar gael i'r gwasanaeth iechyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Sut y defnyddiwyd methodoleg ddarbodus i ddatblygu Cyswllt Ffermio, gan gynnwys dulliau o leihau'r amser y mae'n rhaid i gwsmeriaid aros.
- Atebion i'r cwestiynau na chyrhaeddodd y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 8 Tachwedd 2011.